Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llandegfan

**Llandegfan**
**Porthaethwy**
**LL59 5UW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llandegfan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llandegfan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 163 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 122 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 12.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 7.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 21.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/12/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'angenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar a chynhwysol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd waith hynod gadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr awyrgylch ddysgu barchus a threfnus. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder ac mae eu hymddygiad yn ardderchog.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur hapus y disgyblion. Maent yn feddylgar at eraill, yn sgwrsio'n hollol naturiol â'i gilydd ac oedolion ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn y byd o'u cwmpas. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u treftadaeth leol.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu ac ymestyn medrau disgyblion yn adeiladol dros amser. Mae arweinwyr ac athrawon wedi datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn dda. Maent yn caniatáu cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau am beth hoffent ei ddysgu sy'n eu cefnogi i gymryd diddordeb yn eu dysgu ac i wneud cynnydd yn eu medrau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn ddigon amserol i'w cefnogi i wella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ofalgar a phwrpasol. Caiff ei gynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. At ei gilydd, mae blaenoriaethau'r ysgol yn deillio o brosesau hunanwerthuso cynhwysfawr ac adnabyddiaeth drylwyr arweinwyr o'u hysgol. Er hyn, nid yw'r camau gweithredu i ymateb yn effeithiol i feysydd yr ysgol i'w gwella yn ddigon clir a phenodol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau camau gweithredu clir a phenodol er mwyn ymateb yn effeithiol i feysydd yr ysgol i'w gwella

A2 Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn amserol i'w cefnogi i wella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygiad. Ar fynediad, mae'r Gymraeg yn newydd i lawer o ddisgyblion. Trwy amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog y tu mewn a thu allan i'r ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus, ac yn defnyddio'r iaith yn briodol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod eang o fedrau o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn siarad yn ddealladwy am eu profiadau ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at weithgareddau dysgu. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol wrth chwarae rôl gofodwyr, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn glir wrth drafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb a brwdfrydedd yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn adeiladu'n briodol ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn datblygu'n ddysgwyr huawdl ac hyderus sy'n mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, maent yn trafod sut i leihau ôl troed carbon wrth ddefnyddio bwydydd cynaliadwy lleol wrth goginio yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng seiniau, llythrennau a geiriau. Maent yn mwynhau edrych ar lyfrau a siarad am y lluniau a'r testun. Yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn mwynhau ail-ddweud storïau y maent wedi'u clywed ac yn actio gwahanol rannau o'r storïau yn frwdfrydig. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen â dealltwriaeth gynyddol ac yn defnyddio eu medrau ffonig yn briodol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Wrth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen, maent yn trafod nodweddion llyfrau'n effeithiol ac yn mwynhau dewis a dethol gwahanol destunau wrth ddarllen y broliannau amrywiol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn darllen ystod gyfoethog o destunau yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith.

Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella eu medrau ysgrifennu'n effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr mewn ystod dda o brofiadau, ac yn raddol, maent yn dechrau ysgrifennu geiriau a brawddegau syml yn fedrus, er enghraifft wrth ddisgrifio estroniaid. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n gynyddol gywir, er enghraifft wrth astudio'r thema 'mae pob carreg yn dweud stori'. Ar frig yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio geirfa gyfoethog ac ymadroddion dychmygus wrth ysgrifennu pamffled i annog disgyblion i ddarllen.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth gyfrifo pris cacennau. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod briodol o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn. Er enghraifft, maent yn mesur hyd, uchder a thrwch gwrthrychau amrywiol yn

llwyddiannus. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau yn fuddiol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus wrth luosi a rhannu gyda 10 a 100. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn defnyddio eu medrau rhif yn gywir mewn ystod dda o brofiadau dysgu, er enghraifft wrth ddarganfod faint o ddŵr mae disgyblion o bob dosbarth yn ei yfed fesul wythnos gan ddewis yr unedau mathemategol yn gywir.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu pictogramau i gofnodi eu hoff ofodwyr ac yn defnyddio teganau rhaglenadwy yn hyderus wrth ddatrys problemau syml fel rhan o'u gwaith rhifedd. Mae'r disgyblion hynaf yn ymchwilio'n ddiogel ar y we ac yn defnyddio rhaglenni addas i wneud cyflwyniadau amlgyfrwng o'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn creu ac yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni'n bwrpasol mewn amrywiaeth ysgogol o gyd-destunau dysgu. Er enghraifft, maent yn mireinio'u medrau i ddewis a dethol data i gofnodi pa siocled sy'n toddi gyflymaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a dulliau yn fedrus i gynhyrchu gwaith celf deniadol. Maent yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft wrth efelychu arddull arlunwyr enwog a lleol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn gyson ar draws yr ysgol. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr sy'n hybu eu hiechyd a'u lles yn effeithiol, er enghraifft mewn sesiynau nofio, criced a dawns.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn yr ysgol. Maent yn dangos balchder amlwg at eu hysgol ac yn gwerthfawrogi'r profiadau amrywiol sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog ac yn dangos cwrteisi, gofal a pharch amlwg at ei gilydd ac oedolion. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn sensitif i anghenion eraill ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt broblem. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau'n hyderus ac yn fodlon rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o sut i gefnogi eu lles eu hunain. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn nodi sut maent yn teimlo wrth gyrraedd y dosbarth yn y bore ac mae staff yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon neu anghenion sydd ganddynt. Mae bron bob un o'r disgyblion hynaf yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau da sy'n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn cymryd rhan yn eiddgar mewn sesiynau ymarfer corff ac yn ymrwymo'n frwdfrydig i ystod o glybiau allgyrsiol sy'n hybu ffitrwydd, fel y clybiau chwaraeon a Chlwb yr Urdd. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o effaith ymarfer corff ar eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Yn ystod eu gweithgareddau dysgu, mae bron bob disgybl yn barod i wrando'n astud ac yn mynd ati i weithio'n brydlon. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at eu gwaith a'u profiadau dysgu. Maent yn ymateb yn dda mewn

cyflwyniadau ac yn fodlon ystyried barn eraill yn sensitif. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu hyder cynyddol ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, wrth iddynt gynnal arbrawf gwyddonol ar effaith dŵr ac asid gwan ar amrywiaeth o gerrig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarn i gyfleoedd i gyd-gynllunio a dylanwadu ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn rhannu eu diddordebau a'u dyheadau mewn amrywiaeth o ffyrdd wrth gasglu syniadau ar ddechrau themâu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddiddordeb ac agweddau cadarnhaol iawn wrth ymgysylltu â'u dysgu. O oedran cynnar, mae disgyblion yn dewis tasgau'n effeithiol mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Wrth symud trwy'r ysgol,.mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pa mor bwysig yw rhoi cynnig ar ddatrysiad eu hunain pan ddônt ar draws anawsterau yn eu dysgu. Fodd bynnag, ar adegau, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddyd staff ac nid ydynt yn gwneud digon o benderfyniadau am sut i drefnu a chyflwyno'u gwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth drylwyr o'u hawliau ac am bwysigrwydd cydraddoldeb a pharchu eraill. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ystyriol o ddefnyddio bwydydd a chynnyrch lleol. Er enghraifft, mae disgyblion yn plannu a thyfu llysiau yng ngardd yr ysgol gan ddefnyddio'r cynhwysion i goginio cawl i aelodau'r gymuned.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r cyngor Siarter Iaith yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau Dydd Miwsig Cymru a'r cyngor ysgol yn hybu amrywiaeth o weithgareddau i arbed egni ac ailgylchu o amgylch yr ysgol, er enghraifft. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol, gan gynnwys canu mewn Eisteddfodau lleol ac yng nghartref preswylwyr hŷn y pentref.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog ac yn cynnig profiadau dysgu sy'n sbarduno dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth werthfawr hon yn cwmpasu meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru yn fwriadus. Mae hyn yn sicrhau dilyniant ym medrau disgyblion ac yn ennyn a chynnal eu diddordeb a'u mwynhad yn eu dysgu. Mae athrawon yn sicrhau bod cydbwysedd ac ehangder priodol ym mhrofiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn ystyried syniadau'r disgyblion yn effeithiol fel rhan o'r broses gynllunio ac yn gweithio'n dda â nhw a'u rhieni i ddatblygu cwricwlwm sy'n ymgorffori'r natur gymunedol yr ysgol yn llawn. Mae'r ethos o Gymreictod yn nodwedd amlwg o'r cwricwlwm sy'n plethu'n gelfydd drwy holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ymwybyddiaeth a pherchnogaeth y disgyblion o'u cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach yn cael eu datblygu'n llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, ceir perthnasoedd cynnes a chefnogol rhwng staff a disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn creu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer dysgu. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'r cymorthyddion yn cefnogi anghenion disgyblion yn

effeithiol, yn academaidd ac yn emosiynol, drwy ddefnyddio ystod dda o ymyraethau priodol. Mae sesiynau ymdawelu a myfyrio ar ddechrau'r bore yn paratoi'r disgyblion ar gyfer gweithgareddau dysgu yn llwyddiannus. Mae'r holl staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion ac yn eu cynorthwyo i'w bodloni'n gyson.

Mae athrawon yn darparu arweiniad clir ac effeithiol yn ystod gweithgareddau dysgu. Maent yn cymell disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn sicrhau cydbwysedd medrus rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan staff a chyfleoedd i ennyn diddordeb a datblygu'r disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn gor-arwain y dysgu sy'n llesteirio chwilfrydedd cynhenid y disgyblion ac yn eu rhwystro rhag gwneud dewisiadau mwyfwy annibynnol am eu dysgu.

Mae staff yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau yn gyson a phriodol ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn hyder llafar Cymraeg disgyblion mewn gweithgareddau yn y dosbarth ac yn yr awyr agored. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddarllen ystod o destunau addas a difyr fel rhan o waith thematig y dosbarth, ynghyd â darparu cyfleoedd cyson iddynt ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, fel ysgrifennu llythyr o safbwynt milwr o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae athrawon yn rhoi adborth cyffredinol i ddisgyblion trwy nodi beth maent yn ei wneud yn dda a sut i wella. Er hynny, ar adegau, nid yw'r adborth yn ddigon amserol a phenodol sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i wella eu gwaith a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae staff yn gwneud defnydd hynod effeithiol o amgylchedd dysgu allanol yr ysgol i gymhwyso medrau amrywiol y disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ehangu eu medrau llafar a rhifedd yn dda wrth astudio a mesur tyfiant blodau a chadw cofnod o'r tywydd. Mae'r disgyblion hynaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd a'u medrau digidol yn llwyddiannus wrth greu pentref eco ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau dysgu fel coginio yn y gegin fwd a dilyn cyfarwyddiadau'r cwrs cyfeiriannu yn hyrwyddo medrau llafar, creadigol a datrys problemau'r disgyblion yn effeithiol.

Mae staff yn manteisio ar y cysylltiadau agos a buddiol sydd gan yr ysgol â nifer o grwpiau yn yr ardal leol, fel yr eglwys a'r capel. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn i bentref Llandegfan a gwybodaeth drylwyr am eu cynefin. Caiff profiadau dysgu'r disgyblion eu cyfoethogi ymhellach drwy ymweliadau buddiol i leoedd diddorol eraill fel traeth Benllech.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a chartrefol lle rhoddir blaenoriaeth i les pawb. Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r staff yn creu ethos cefnogol a chynnes sy'n cyfrannu'n sylweddol at ymgysylltiad disgyblion yn yr ysgol a'u parodrwydd i ddysgu.

Mae'r ysgol yn llwyddo i ymateb mewn modd sensitif a chefnogol i anghenion bron bod disgybl. Maent yn darparu rhwydwaith o gymorth gwerthfawr i ddisgyblion sy'n

eu helpu i ymdrin â'u teimladau ac emosiynau yn ofalgar. Mae bron bob disgybl yn mwynhau cymryd rhan yn y sesiynau cymorth hyn, ac o ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag asiantaethau amrywiol yn ôl yr angen i wella anawsterau emosiynol a chymdeithasol ychydig iawn o ddisgyblion. Maent yn darparu ystod gynhwysfawr o gymorth i helpu disgyblion i ddatblygu gwydnwch a dyfalbarhad a gwella'u lles.

Mae'r ysgol yn dilyn systemau sefydlog i gasglu gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau disgyblion. Mae bron bob disgybl sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Trwy ei harweiniad craff, mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a lles disgyblion ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn bwrpasol. O ganlyniad, mae staff yn hynod ymroddgar yn adnabod anghenion unigol disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar. Maent yn gosod targedau realistig ac yn darparu ystod o raglenni cefnogi bwriadus sy'n targedu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae ystod gwerthfawr o raglenni cefnogaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ynghyd â chefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r rhieni i adnabod pa gymorth fydd ei angen ar gyfer eu plant i gyrraedd y camau nesaf yn eu dysgu ac wrth adolygu eu cynnydd.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r Cylch Meithrin sydd wedi ei leoli ar safle'r ysgol yn werthfawr. Mae hyn yn galluogi staff i rannu gwybodaeth bwysig am ddiddordebau ac anghenion disgyblion cyn iddynt gyrraedd yr ysgol. Mae hyn yn cefnogi staff i baratoi'n amserol i roi trefniadau ar waith i ddiwallu anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol yn creu cysylltiadau buddiol â'r gymuned, sy'n cyfoethogi profiadau cymdeithasol disgyblion yn gadarn. Er enghraifft, mae'r gwaith gyda Phrifysgol y Plant yn darparu cyfleoedd dysgu diderfyn y tu hwnt i ffiniau'r ysgol. Enghraifft nodedig o'r gwaith hwn yw cefnogi disgyblion i ddatblygu medrau newydd fel ffotograffiaeth. Mae'r profiadau gwirfoddol hyn yn cryfhau hyder y disgyblion ac yn ymestyn eu gorwelion at lwybrau addysgol i'r dyfodol.

Rhoddir pwyslais clir ar safbwyntiau'r disgyblion ar ddechrau themâu ac wrth gynllunio gweithgareddau, gan hefyd roi cyfleoedd addas iddynt gymryd rhan mewn penderfyniadau drwy aelodaeth y cynghorau ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn gyfrifol am ddod o hyd i grantiau a chyfrannu at geisiadau i hawlio cyllid ychwanegol i brynu offer digidol.

Mae'r ysgol yn arddel cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth dda o'u treftadaeth Gymreig. O fewn y gwasanaethau ysgol gyfan, mae'r disgyblion yn dysgu parchu arferion a moesoldeb gwahanol grefyddau. Er enghraifft, maent yn cymharu Ramadan a'r Grawys yn dda, ac yn trafod gwerthoedd ysbrydol Dewi Sant i helpu pobl eraill yn fedrus. Mae hyn yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau lleol yn gyson, yn cystadlu mewn Eisteddfodau yn flynyddol, ac yn fwyaf diweddar wrth gymryd rhan yn seremoni ailagor Tŵr Marcwis.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n greadigol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau, er enghraifft wrth i'r disgyblion

ieuengaf greu lluniau dychmygus o'r gofod ac wrth i'r disgyblion hynaf greu crochenwaith yn ofalus.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf. Ar draws yr ysgol, mae gan staff ddealltwriaeth glir o'r prosesau a'r gweithdrefnau i gadw disgyblion yn ddiogel. Maent yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol, i hyrwyddo prydlondeb cyson a phresenoldeb da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar greu ysgol gynhwysol a gofalgar i gefnogi disgyblion ddatblygu eu lles a'u medrau sylfaenol. Mae'r pennaeth, ynghyd â'r dirprwy, yn cydweithio'n llwyddiannus â rhanddeiliaid i wireddu'r weledigaeth gytûn. Mae hyn yn seiliedig ar gefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr caredig, parchus sy'n dyfalbarhau wrth weithio. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol sy'n helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol a brwdfrydig at ddysgu.

Mae ymdeimlad cryf o falchder ac ymddiriedaeth yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio ar draws cymuned glòs yr ysgol. Mae'r staff yn gweithio'n bwrpasol fel tîm ac maent yn ymgorffori gwerthoedd proffesiynol sy'n hyrwyddo a gosod esiampl gref i ddisgyblion. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm gweithgar o staff drwy ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn ofalus. Maent yn ymroi'n llwyr i werthoedd yr ysgol sy'n hybu diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng holl aelodau'r staff. O ganlyniad, maent yn awyddus i ddatblygu'r ddarpariaeth i wella profiadau, cynnydd a medrau'r disgyblion. Er enghraifft, wrth iddynt ddatblygu'r ardal allanol i gefnogi annibyniaeth y disgyblion ieuengaf.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Mae'r corff yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n llwyddiannus at weithgarwch monitro ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gynnydd yr ysgol wrth weithredu ar y meysydd i'w gwella. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol sydd wedi ei sylfaenu ar sail resymegol. Maent yn deall eu rôl wrth gynorthwyo arweinwyr i roi ei strategaeth gwella ar waith. Mae aelodau'r corff yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn defnyddio eu profiadau o'u hymweliadau cyson i herio a chefnogi'r arweinwyr yn briodol.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cynhyrchiol â rhieni. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod rhieni'n cael codi unrhyw faterion a allai gael effaith ar ddysgu a lles eu plentyn yn amserol. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn arbennig o dda ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rieni gyfrannu'n adeiladol at yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn cyfrannu'n bwrpasol at themâu dysgu'r ysgol ar ddechrau bob tymor.

Mae gan yr ysgol drefniadau hunanwerthuso effeithiol sy'n seiliedig ar ystod o dystiolaeth. Mae gan arweinwyr brosesau cynhwysfawr ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Maent yn ystyried tystiolaeth sy'n dangos effaith ar gynnydd y disgyblion yn erbyn eu blaenoriaethau cyfredol. Yn ogystal, mae arweinwyr yn rhoi adborth amserol yn dilyn craffu ar waith disgyblion. Mae cyswllt clir

rhwng canfyddiadau'r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun gwella, sy'n canolbwyntio'n fwriadus ar wella'r ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw camau gweithredu'r cynllun datblygu bob amser yn ddigon clir a phenodol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr a staff yn mynd i'r afael ag ychydig o agweddau i'w gwella yn ddigon effeithiol.

Mae arweinwyr yn creu ethos a diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi a hybu dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn gadarn. Defnyddir profiadau ac arbenigedd unigol staff yn effeithiol wrth hyrwyddo dysgu proffesiynol a dyrannu cyfrifoldebau cwricwlaidd. O ganlyniad, mae pob aelod o staff yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth ac maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Er enghraifft, mae athrawon yn gweithio gydag ysgolion lleol i rannu arfer dda ac i ddatblygu syniadau newydd wrth ddylunio'r cwricwlwm.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu gwariant yn ofalus ac yn rheoli cyllid yn briodol. Maent yn sicrhau bod cynllunio ariannol a phenderfyniadau gwariant yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau gwella strategol. Defnyddir amrywiaeth o grantiau yn hynod effeithiol i gefnogi'r ddarpariaeth ac i hyrwyddo lles disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio ei grant datblygu disgyblion yn effeithiol i sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   09/05/2024